# Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 9 Gorffennaf 2025 **Amser:** 09.30 - 14.00; Cyfarfod Teams.

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Carys James (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)

**Agenda:**

**1. Croeso a chyflwyniadau:**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2. Siaradwyr Gwadd:**

**Jodi Evans o Ymddiriedolaeth Ann Craft a Graham Smith o'r NSPCC.**

Amlinellodd Jodi Evans ei rôl yn Ymddiriedolaeth Ann Craft a'i ffocws ar ddiogelu oedolion ym maes chwaraeon, a thrafododd Graham Smith bartneriaeth yr NSPCC â'r Ymddiriedolaeth. Mae Ymddiriedolaeth Ann Craft, elusen sy'n gweithio i amddiffyn oedolion ym maes chwaraeon, yn hybu gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar cyn bod angen mesurau statudol. Roedd y cyflwyniad yn pwysleisio bod diogelu'n berthnasol i bob oedolyn, ac nid dim ond i'r rheiny sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed.

Roedd sefydliadau chwaraeon yn cael eu hannog i fabwysiadu polisïau rhagweithiol, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Ann Craft trwy ddarparu hyfforddiant a datblygu polisïau ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Mae'r prif heriau'n cynnwys adnoddau anghyson ac argaeledd arbenigedd mewn sefydliadau unigol.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu partneriaethau cryfach ag asiantaethau statudol a chreu fframwaith diogelu oedolion ar gyfer chwaraeon. Daeth y sesiwn i ben trwy bwysleisio cydweithio a meithrin ymddiriedaeth er mwyn hybu ymdrechion i ddiogelu yn y sector.

**3. Cynllunio ar gyfer yr Wythnos Diogelu:**

Mae gwaith ar gynllunio'r Wythnos Diogelu yn mynd rhagddo'n dda, gyda ffocws penodol ar ddiogelu trosiannol, ac mae'r siaradwyr wedi'u cadarnhau. Bydd Arolygiaeth

Gofal Cymru yn cyflwyno gwybodaeth a gasglwyd trwy ei rhaglen arolygu. At hynny, bydd canfyddiadau'r adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yn cael eu cynnwys, os caiff yr adolygiad ei gwblhau'n brydlon. Mae cynnal y digwyddiad gan ddefnyddio cyfleusterau Prifysgol Metropolitan Manceinion yn cael ei ystyried, fel y gwnaethpwyd o'r blaen, ac mae cyfleuster Microsoft Live Event yn cael ei archwilio fel platfform amgen. Rhagwelir y bydd y Gweinidog yn cymryd rhan, ac mae cais wedi'i wneud am neges fideo wedi'i recordio i agor y digwyddiad. Mae ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol hefyd yn ceisio cadarnhad ynghylch pwy fydd yn llywyddu'r digwyddiad. Mae disgwyl i'r digwyddiad gael ei gynnal ddydd Mercher 12 Tachwedd 2025 yn rhan o'r Wythnos Diogelu.

**4.Diweddariad ynghylch y gyllideb:**

Darparwyd diweddariad ynghylch y gyllideb gan amlinellu rhagamcan o wariant hyd at fis Mawrth, a oedd yn cynnwys y swydd wag ar y Bwrdd, yr adolygiad thematig blynyddol, a'r dyraniad cyllid ar gyfer partneriaeth Prifysgol Metropolitan Manceinion. Trafododd y Bwrdd yr opsiynau ar gyfer defnyddio cyllid heb ei ddyrannu i gefnogi'r Wythnos Diogelu a mentrau eraill y Bwrdd.

Nodwyd hefyd yr angen i fuddsoddi mewn offer TG a hyfforddiant ynghylch seiberddiogelwch i aelodau. Er mwyn gwella prosesau gweinyddol a diogelwch, cynigiwyd y dylid uwchraddio i gynllun TG uwch ar gyfer busnesau, sy'n amddiffyn yn well rhag ymosodiadau seiber, ochr yn ochr â mabwysiadu arferion ar gyfer rhannu ffeiliau'n ddiogel. Cydnabuwyd bod yna bryderon posibl ynghylch cydnawsedd â systemau cyfredol, a allai olygu bod angen cymorth neu offer ychwanegol. Mae'r camau nesaf yn cynnwys nodi cynnyrch diogelwch TG priodol a threfnu hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd ynghylch seiberddiogelwch, gyda'r posibilrwydd o drefnu'r sesiynau hynny ar gyfer y misoedd sydd i ddod.

**5. Recriwtio a chyfarfod â'r Gweinidog:**

Disgwylir y bydd y cyfweliadau ar gyfer y swydd wag ar y Bwrdd yn cael eu cynnal ddydd Gwener 11 Gorffennaf. Nodwyd y bydd yn rhaid i'r Gweinidog gymeradwyo'r penodiad terfynol, a allai olygu ymestyn yr amserlen ar gyfer cadarnhau'r penodiad ar ôl y cyfweliadau.

**6. Adolygiad thematig blynyddol**

Yn ystod y cyfarfod, bu'r tîm yn trafod y trefniadau ar gyfer yr adolygiad thematig sydd ar ddod o Adolygiadau Ymarfer Plant, gan ganolbwyntio'n benodol ar y broses gaffael ac ar ddewis yr adolygwyr. Roedd disgwyl i'r cyfnod caffael ddod i ben ganol dydd trannoeth. Roedd y grŵp yn cytuno ei bod yn bwysig cynnull panel sgorio yn brydlon. Yn rhan o'r sgwrs, eglurwyd ei bod yn arfer i ddau berson reoli'r broses o sgorio'r adolygiad, a gofynnwyd am wirfoddolwyr i gyflawni'r rôl honno. Cytunwyd y byddai'r ceisiadau a'r

matricsau sgorio'n cael eu rhannu ar gyfer yr ymarfer gwerthuso, ac y byddai cyfarfod byr yn cael ei gynnal i wneud y penderfyniadau terfynol. Cafodd y trefniadau ar gyfer rheoli'r adolygiad eu dirprwyo'n effeithlon, a fyddai'n sicrhau bod pob cam angenrheidiol yn cael ei gwblhau'n brydlon.

**7. Crynodeb o gyfarfodydd a fynychwyd â Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rhanddeiliaid:**

Mae Gogledd Cymru yn dal i wynebu heriau o ran capasiti ar gyfer gwaith is-bwyllgorau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod angen adfywio, a phwysleisiodd yr angen am ddull mwy integredig o gasglu a dadansoddi data yn y rhanbarth.

Yng Nghaerdydd a'r Fro, ceir mynediad da i ddata sy'n cefnogi gwaith dadansoddi effeithiol a phenderfyniadau gwybodus. Mae ymdrechion ar y gweill i ddatblygu protocol cwyno sy'n gysylltiedig ag Adran 5 y gweithdrefnau diogelu.

Yng Ngwent, roedd sesiwn gwaith maes diweddar ynghylch perfformiad wedi tynnu sylw at effaith pwysau ar y gyllideb, a oedd wedi arwain at leihau capasiti'r tîm data. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i wella'r gallu i ddadansoddi data, er mwyn cefnogi mentrau diogelu yn well.

I'r Canolbarth a'r Gorllewin, cyhoeddwyd y byddai cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal cyn bo hir, a oedd yn arwydd o newid o ddulliau hybrid i ymgysylltu wyneb yn wyneb er mwyn gwella cydweithio.

Mewn cyfarfodydd diweddar â rhanddeiliaid, roedd yr ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru yn canolbwyntio ar ddiogelu trosiannol. Roedd pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ac alinio fframweithiau hyfforddiant yn destun trafod allweddol.

Mewn cyfarfod diweddar o bartneriaeth ddiogelu ranbarthol, roedd y ffocws ar ddiogelu ym maes iechyd ac ar weithredu hyfforddiant Grŵp C. Roedd adborth yn awgrymu bod yr hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn hyfforddiant sylfaenol, a arweiniodd at argymhellion ynghylch cyflwyno cynnwys sydd ar lefel uwch.

Bu cynrychiolwyr o'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn cyfarfod â'r sector Gwasanaethau Ieuenctid er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch nifer y bobl y mae'r hyfforddiant yn eu cyrraedd a lefel yr ymgysylltu â Byrddau Diogelu. Roedd y sesiwn yn un gynhyrchiol, ac amlygodd bwysigrwydd integreiddio gwell a darparu mwy o gymorth ar gyfer sectorau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio.

**8. Cyflwyniad Chris Frey-Davies:**

Cafwyd cyflwyniad ynghylch y dangosfwrdd diogelu a ddatblygwyd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, i ddangos ystod o fetrigau sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau diogelu, gwasanaethau atal a phryderon proffesiynol. Mae'r dangosfwrdd hwn yn galluogi defnyddwyr i wahanu data yn ôl awdurdod lleol, ac mae'n cynnig dealltwriaeth

o ffynonellau atgyfeiriadau, ymchwiliadau diogelu ac ystadegau ynghylch amddiffyn plant.

Roedd gwybodaeth allweddol a ddarparwyd gan y data'n datgelu anghysondebau mewn atgyfeiriadau diogelu rhwng y ddau awdurdod, a arweiniodd at drafodaethau ynghylch dehongli data ac ynghylch y meini prawf ar gyfer trothwyon. Roedd y dangosfwrdd hefyd yn amlygu'r rhan y mae amryw asiantaethau'n ei chwarae wrth gyflwyno atgyfeiriadau, ac roedd y sector addysg a'r sector iechyd yn gyfranwyr amlwg o bwys.

Trafodwyd pryderon proffesiynol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag Adran 5, gan dynnu sylw at wahaniaethau amlwg yn ffynonellau'r atgyfeiriadau rhwng plant ac oedolion. Mynegodd y Bwrdd ddiddordeb mewn comisiynu ymchwil i ddata Adran 5 er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o batrymau atgyfeirio a'u goblygiadau. Bydd mewnbwn yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod manyleb yr ymchwil yn mynd i'r afael â chwestiynau perthnasol a bylchau.

At hynny, mae'r dangosfwrdd yn cynnwys metrigau ar asesiadau gofal a chymorth, yn ogystal â nifer y plant sy'n cael cymorth parhaus, sy'n pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar y maes hwn na cheir adroddiadau digonol yn ei gylch yn aml. Rhannwyd data ynghylch plant sy'n derbyn gofal hefyd, gan gynnwys y plant y trefnir lleoliadau ar eu cyfer gan awdurdodau lleol allanol, a thynnwyd sylw at effaith hynny ar wasanaethau lleol.

Roedd y fframwaith pum cwestiwn wedi cael ei integreiddio yn y cynllun blynyddol ac mewn gweithgareddau datblygu, a oedd yn cynorthwyo partneriaid i werthuso prosesau a chanlyniadau diogelu. I gydnabod yr ymdrechion hyn, bydd y digwyddiad blynyddol ym mis Tachwedd yn cynnwys cyflwyniad ar y dangosfwrdd ac ar y fframwaith pum cwestiwn.

Roedd y cyfarfod yn cynnwys cyflwyniad manwl o'r data ynghylch pryderon proffesiynol dan Adran 5 ar gyfer plant, a oedd yn dangos gwahaniaethau amlwg yn ffynonellau'r atgyfeiriadau rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Yn Abertawe mae cyfran sylweddol o'r atgyfeiriadau'n dod o ffynonellau ym maes iechyd, ac ysbytai yn enwedig, ond yng Nghastell-nedd Port Talbot caiff atgyfeiriadau eu gwasgaru'n fwy cyfartal rhwng amryw asiantaethau.

Nodwyd angen i gomisiynu ymchwil i ddata Adran 5 er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o batrymau atgyfeirio a'u goblygiadau. Bydd mewnbwn yn cael ei ddarparu wrth lunio manyleb yr ymchwil er mwyn sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â'r cwestiynau perthnasol ac unrhyw fylchau sy'n bodoli.

Nodwyd, er ei bod yn debygol y bydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddata Adran 5, y gallai cysondeb y data sy'n cael ei gasglu a'r gwaith o adrodd yn ei gylch amrywio.

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro a yw data Adran 5 yn cael ei gasglu ar lefel genedlaethol.

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Gweithdrefnau wrthi'n diwygio canllawiau Adran 5, ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymchwil sydd ar ddod a mentrau casglu data.

Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys darparu mewnbwn i'r broses o lunio manyleb yr ymchwil a chysylltu eto â Llywodraeth Cymru i gadarnhau arferion casglu data cenedlaethol ar gyfer Adran 5.

**Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 13 Awst 2025.**